CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**04.12.23**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW ; RJ; IW; GW;EO;JAJ; TAJ<br>**Ymddiheuriadau:** EY/RY/AR/Cyng. Jackie Lewis/LLMH<br>Mynyc**hu:** SWR |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DAW/GW ddiddordeb yn Eitem 6 Cyllid – archebu Coeden Dolig |
| 3 | **Cofnodion 09.11.23** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 09.11.23 fel rhai cywir (EO/GW)<br><br>**Cofnodion Is Bwyllgor Cyllid –** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion Is Bwyllgor Cyllid 16.11.23. Nododd y Clerc bydd CSYM angen ein cais praesept erbyn dechrau Chwefror. Cytunwyd i JAJ holi Colin Jones am gymorth gyda symleiddio'r cyfrifon. Cytunodd LLMH i roi cymorth i'r Clerc yn y cyfamser. Cytunwyd hefyd i neilltuo rhan helaeth o gyfarfod mis Ionawr i drafod y cyllideb 2024-25<br><br>**Nodiadau Cyfarfod Clwb Bowlio –** cyflwynwyd a derbyniwyd nodiadau cyfarfod gydag aelodau'r Clwb Bowlio 23.11.23. Nodwyd nad oedd yr aelodau wedi trafod dyrrannu'r arian yn eu cyfrif banc eto. Nid oeddynt yn hapus i drosglwyddo'r balans i CC LLan er bod sicrwydd y byddai yr arian yn cael ei ddiogelu yng nghyfrif cadw CCLlan ar gyfer datblygiadau posib i'r Clwb Bowlio yn unig.<br>Cytunwyd i newid clo'r giat (GW) ac i'r Clerc ysgrifennu at holl glybiau bowlio yr Ynys yn eu hysbysu o'r trefniadau newydd a cheisio unrhyw arweiniad a chymorth i ddatlgybu'r safle ymhellach.<br><br>**Materion yn Codi** |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Sul y Cofio** – Diolchodd y Cadeirydd i bawb fu'n gyfrifol am drefnu gwasanaeth arbennig fel yr arfer. Nododd JAJ bod y darlledu ar lein yn hynod effeithiol. Yn anffodus, cafwyd cwynion am benderfyniad Parch Vaughan Prydderch i ledio'r anthemau cenedlaethol gan nad oedd yn addas mewn gwasanaeth cofio. Cynigiodd DAW bod y Clerc yn ysgrifennau at VP yn nodi'r cwynion ac yn ei hysbysu bydd trefn bendant i'r gwasanaeth ar gyfer 2024, eilwyd gan DP. Ymddiheuriwyd i'r aelodau oedd yn bresennol na gafodd eu cynnwys yn y llun yn dilyn y gwasanaeth, gan eu bod wedi gadael erbyn hyny. Cytunwyd hefyd i roi cydnabyddiaeth i Gwyn Annwyl a Tegwen Owen am eu gwasanaeth gan eu bod wedi gwrthod unrhyw daliad dros y blynyddoedd diwethaf. Cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc drefnu taleb Caffi'r Stesion am £30 yr un.<br><br>**Coeden Dolig –** nodwyd bod y goeden wedi cyrraedd ac wedi ei hardduno'n hardd iawn. Diolchwyd i GW/DAW am eu gwaith caled. Bu i'r ddau nodi nad ydynt yn dymuno trefnu yn 2024. O ganlyniad, bydd rhaid trafod ffordd amgen mewn da bryd ar gyfer 2024. Cytunwyd i dalu'r £160 i cwmni Cefn Coch.<br><br>**Creu Cwmni Cymunedol –** ymlaen i Ionawr<br><br>**Swper Nadolig -** rhannodd y Clerc y fwydlen a nododd pawb eu dewis. Bydd y swper am 7pm yng Nghaffi'r Bae Benllech.<br><br>**Fferm Solar Awel Môn** – Nododd y Clerc bod angen ymateb i'r ymgynghoriad olaf hwn erbyn 13.12.23 Dywedodd hefyd ei bod wedi gofyn i swyddogion Pegasus/Enso Energy am y wybodaeth ychwanegol a ofynwyd amdano yn dilyn eu cyflwyniad ond nad oedd wedi derbyn hyd yma. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd i'r Clerc gyflwyno'r ymateb isod erbyn y dyddiad cau.<br><br>Ymateb Alaw Môn<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 04.12.23 |
| 5 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Materion Priffyrdd –** ffordd ger Rhyd y Badell mewn cyflwr drwg. Parcio ar linellau melyn a'r ceir yn aml yn pwyntio ffordd anghywir.<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at ddiweddariad dderbyniodd ar y Cynllun Gweithredu Priffyrdd ac fe addawodd ebostio copi at bawb. Cytunwyd i'r Clerc ychwanegu'r materion o bryder uchod at GG Priffyrdd a'i anfon at y swyddogion perthnasol. |
| 6 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Tachwedd –** **£**<br>Scottish Power Uned 1 111.84 |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | | |
|---|---|---|
| | Scottish Power – CPD<br>Unllais Cymru – tal aelodaeth<br>Dragon Fire – Clwb Bowlio<br>Dragon Fire - CPD<br>MAT Services – glanhau ffliwiau yn y Caffi<br><br>**Biliau cyfredol:**<br>MSI Alarms – arolwg larymau Caffi'r Stesion<br>**Cefn Coch –** archebu coeden dolig<br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 10588.45<br>Cyfrif Cadw: £ 8487.57<br><br>**Cais Grwp LlanNi am arian Loteri Fawr**<br>CSYM – costau cyfreithiol trefnu lles siop 2 Maes Athen<br>Quadrant Building Regulations – Siop 2 Maes Athen<br>Cadarn – penseiri | 97.57<br>251.00<br>25.14<br>25.14<br>430.00<br><br>**£**<br>115.20<br>160.00<br><br><br><br><br><br>699.37<br>300.00<br>480.00 |
| **7** | **Materion Cynllunio**<br><br>Dim i law | |
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir -**<br>Ni chafwyd adroddiad | |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel -** Clerc yn nodi bydd gofynion EPC yn cael eu gweithredu dydd Gwener 8 Rhagfyr – Clerc i drefnu agor a chau.<br><br>**Safle'r Stesion –** Cytunwyd i'r Clerc ofyn i Liam Jones drwshio'r wal ar safle'r Stesion. Cytunodd GW i ail-osod teils a handlen drysau a drws tân yn y Stesion.<br><br>**Lawnt Fowlio –** trafodwyd eisoes<br><br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br><br>**Cae Gofeb –** dim i law<br><br>**Mynwentydd** – dim i law | |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br><br>Ers cychredeg y papurau ar gyfer heno fel gylchredwyd yr isod hefyd.<br><br>• Adroddiad IRPW<br>• Adroddiad Ombwdsmon<br>• Newyddlen Archwilio Cymru<br><br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd uchod ac ar y Rhaglen – dim sylwadau pellach. | |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm* | |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383